Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd

# CBAC Cynnal Asesiadau Di-arholiad ar gyfer Cymwysterau Cenedlaethol 14-16

## Canllaw Athrawon



# Cynnal Asesiadau Di-arholiad mewn Cymwysterau 14-16 Cenedlaethol - Canllaw i Athrawon[1]

Bwriad y ddogfen hon yw cefnogi athrawon wrth gynllunio a chyflwyno asesiadau di-arholiad. Dylid ei defnyddio ynghyd â chyhoeddiadau CGC eraill, sy'n nodi'r gofynion perthnasol:

- Canllawiau'r CGC ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn asesiadau

Mae canllawiau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon o ran sut y dylid rheoli camau ymchwil ac asesu di-arholiad yr asesiadau di-arholiad, gan gynnwys unrhyw ddisgwyliadau o ran goruchwylio, mynediad at adnoddau a chyfeirnodi. Cafodd ei llunio i sicrhau cysondeb gan gefnogi uniondeb a thegwch y broses asesu ar yr un pryd.

## Cyfnod yr Ymchwil

Gellir gofyn i ymgeiswyr gynnal gwaith ymchwil wrth iddynt baratoi ar gyfer Asesiad Di-arholiad. Gallai hyn gynnwys:
- Dod o hyd i adnoddau presennol a/neu wybodaeth am destun neu thema
- Casglu ffeithiau, data neu ystadegau
- Casglu asedau digidol (e.e. delweddau, sain, fideo)
- Defnyddio ffynonellau gwahanol i ysgogi syniadau ac ysbrydoliaeth
- Casglu barn a safbwyntiau gwahanol (drwy arolygon, cyfweliadau, neu drafodaethau)
- Cynllunio tasgau.

Mae amrywiaeth o ffynonellau y gall ymgeiswyr eu defnyddio ar gyfer cynnal eu gwaith ymchwil, megis:
- Llyfrau
- Gwefannau
- Erthyglau
- Fideos
- Arolygon
- Cyfweliadau
- Trafodaethau
- Offer AI cynhyrchiol
- Arall.

### Yn ystod y Cyfnod Ymchwil

Yn ystod y cyfnod ymchwil ar gyfer asesiadau di-arholiad, dau brif egwyddor sydd o ran tywys ymgeiswyr drwy'r broses o gasglu gwybodaeth. Amlinellir y rhain yn Gwybodaeth Ymchwil yr Asesiad Di-arholiad (sydd i'w gael yn y Pecyn Asesu).

Egwyddor 1 – Dull Gweithredu Ymchwil

- Sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol – Mewn rhai pynciau a/neu unedau mae angen i ymgeiswyr gwblhau ymchwil mewn amgylchedd dan oruchwyliaeth ffurfiol.
- Sesiynau heb oruchwyliaeth – Gall pynciau a/neu unedau eraill ganiatáu cynnal ymchwil yn annibynnol, y tu allan i sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol.

Bydd y rhan Gwybodaeth Ymchwil yn yr Asesiad Di-arholiad yn nodi'n glir beth yw disgwyliadau pob pwnc a/neu uned.

[1] Sylwer, mae'r geiriad yn wahanol mewn rhai mannau yn y fersiwn ymgeiswyr i'w wneud yn fwy hygyrch

© WJEC CBAC Ltd.2026

Egwyddor 2 – Cyfeirnodi

Dylai unrhyw waith ymchwil sy'n cael ei gyflwyno yn yr Asesiad Di-arholiad gael ei gyfeirnodi'n briodol gan ddilyn 'Pa bryd i Gyfeirnodi Ffynhonnell' (Atodiad 1) a 'Sut i Gyfeirnodi Ffynhonnell' (Atodiad 2). Mae angen gwneud hyn heb ystyried sut neu ble y cafodd ymchwil ei gasglu h.y. mewn sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol neu sesiynau heb oruchwyliaeth).

Mae rhai pynciau a/neu unedau yn caniatáu cydweithio yn ystod y cyfnod ymchwil. Bydd Gwybodaeth Ymchwil yr Asesiad Di-arholiad yn amlinellu hyn yn glir hefyd.

## Cyfnod yr Asesiad Di-arholiad

Mae lefelau gwahanol o reolaeth yn cael eu defnyddio i reoli sut mae ymgeiswyr yn cwblhau eu gwaith Asesiad Di-arholiad. Mae’r rheolaethau hyn yn ymwneud â dau faes:
- Amodau asesu
- Adnoddau

Mae'n bosibl gosod pob maes rheoli ar un o dair lefel. O ran Amodau Asesu, y categorïau yw Uchel, Canolig ac Isel. O ran Adnoddau, y categorïau yw Dim, Penodol ac Wedi'i ganiatáu.

Bydd Gwybodaeth Asesu (sydd i'w chael yn y Pecyn Asesu) yn nodi beth yw'r lefel o reolaeth sy'n ofynnol ar gyfer pob tasg a/neu uned ac yn rhoi manylion unrhyw arweiniad perthnasol arall.

**Mae rheolaeth gymysg yn bosibl – er enghraifft, gellir cyfuno *Amodau Asesu:* ‘Uchel' ag *Adnoddau*: ‘Dim' ac ati.**

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Rheolaethau Amodau Asesu**

| Lefel | Amodau asesu |
|---|---|
| **Uchel** | Mae ymgeiswyr yn cwblhau gwaith dan oruchwyliaeth ffurfiol[2] (e.e. mewn ystafell ddosbarth dan oruchwyliaeth athrawon), gan ddilyn y rheolau hyn:<br>• Ni chaniateir cyfathrebu â chyfoedion (gan gynnwys ar destunau nad ydynt yn berthnasol)<br>• Ni all athrawon roi unrhyw gymorth y tu hwnt i ddarllen y cyfarwyddiadau.<br>• Rhaid i ymgeiswyr weithio'n annibynnol, a rhaid i bob darn o waith fod yn waith iddyn nhw eu hunain.<br>• Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a rhaid storio'r gwaith yn ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.<br>• Ni ddylai unrhyw arddangosfeydd neu ddeunyddiau a allai roi mantais i ymgeiswyr fod i'w gweld.<br>• Yn unol â rheoliadau'r CGC ar gyfer asesiadau di-arholiad, rhaid arddangos y 'Rhybudd i Ymgeiswyr' a'r 'Poster Eitemau nad ydynt yn cael eu Caniatáu'. |
| **Canolig** | Mae ymgeiswyr yn cwblhau gwaith dan oruchwyliaeth anffurfiol – (e.e. yn yr ystafell ddosbarth dan oruchwyliaeth athrawon), gan ddilyn y rheolau hyn:<br>• Caniateir cyfathrebu cyfyngedig – gall ymgeiswyr gyfathrebu, ond ni ddylai hynny fod ynghylch cynnwys tasgau (onid yw Gwybodaeth Asesu yn nodi bod cydweithio wedi'i ganiatáu).<br>• Gall athrawon roi arweiniad cyffredinol (e.e. terfynau amser a chynnig eglurhad am y dasg) ond nid ydynt yn cael rhoi cyngor penodol, adborth am y pwnc, na chynnig cywiriadau.<br>• Gellir caniatáu cydweithio – gall ymgeiswyr weithio mewn grwpiau wedi'u diffinio ymlaen llaw os yw Gwybodaeth Asesu yn nodi hynny.<br>• Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a rhaid storio'r gwaith yn ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen. |
| **Isel** | Mae ymgeiswyr yn cwblhau gwaith heb unrhyw oruchwyliaeth – mewn ystafell ddosbarth, neu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth (e.e. llyfrgell neu gartref), os yw Gwybodaeth Asesu yn nodi hynny, gan ddilyn y rheolau hyn:<br>• Mae cyfathrebu yn cael ei ganiatáu.<br>• Gall athrawon roi arweiniad cyffredinol ar sut i fynd i'r afael â'r dasg (e.e. egluro strwythur y dasg neu helpu ymgeiswyr i ddeall yr hyn y mae gofyn iddyn nhw ei wneud), ond nid ydynt yn cael rhoi cyngor penodol, adborth am y pwnc, na chynnig cywiriadau.<br>• Gellir caniatáu cydweithio – gall ymgeiswyr weithio mewn grwpiau wedi'u diffinio ymlaen llaw, os yw Gwybodaeth Asesu yn nodi hynny. |

[2] Nid oes unrhyw ofynion penodol o ran nifer yr athrawon/aseswyr y mae angen iddyn nhw fod yn bresennol yn ystod asesiad. Fodd bynnag, rhaid i'r gymhareb fod yn ddigonol i sicrhau bod modd goruchwylio ymgeiswyr yn briodol drwyddi draw. Os mai dim ond un athro/athrawes sy'n bresennol, rhaid iddyn nhw allu galw am gymorth heb fod angen gadael yr ystafell asesu. Ni ddylid gadael ymgeiswyr heb oruchwyliaeth neu ar eu pennau eu hunain ar unrhyw bryd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Rheolaethau Adnoddau**

| Lefel | Adnoddau |
|---|---|
| **Dim** | • Dim mynediad at ddeunyddiau wedi'u paratoi nac ymchwil. Bydd Gwybodaeth Asesu yn diffinio hyn yn glir.<br>• Ni chaniateir defnyddio’r rhyngrwyd.<br>• Ni ddylai athrawon ddarparu adnoddau ar gyfer ymgeiswyr.<br>• Ni chaniateir ffonau symudol a/neu unrhyw ddyfeisiau electronig eraill. |
| **Penodol** | • Dim ond yr adnoddau penodol sydd wedi'u hamlinellu yn Gwybodaeth Ymchwil y gall ymgeiswyr gael mynediad atyn nhw. Gall hyn gynnwys adnoddau wedi'u darparu gan y ganolfan neu ymchwil a gasglodd yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod ymchwil.<br>• Os yw Gwybodaeth Asesu yn dweud hynny, yna mae'n bosibl cael mynediad at y rhyngrwyd (ac adnoddau eraill) ar gyfer gwneud ymchwil; rhaid i athrawon fonitro hyn.<br>• Ni ddylai athrawon ddarparu adnoddau oni nodir hynny'n benodol yn Gwybodaeth Asesu.<br>• Rhaid i ymgeiswyr ddilyn 'Pa bryd i Gyfeirnodi Ffynhonnell' (Atodiad 1) a 'Sut i Gyfeirnodi Ffynhonnell' (Atodiad 2) wrth ddefnyddio adnoddau. |
| **Wedi’i ganiatáu** | • Gall ymgeiswyr gael mynediad at adnoddau o'u dewis, gan gynnwys deunyddiau maen nhw wedi dod o hyd iddyn nhw'n annibynnol eu hunain.<br>• Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei ganiatáu.<br>• Gall athrawon gefnogi ymgeiswyr o ran dod o hyd i adnoddau (e.e. drwy eu helpu i chwilio ar-lein), ond ni ddylen nhw ddarparu adnoddau onid yw hynny wedi'i nodi'n benodol yn Gwybodaeth Asesu.<br>• Rhaid i ymgeiswyr ddilyn 'Pa bryd i Gyfeirnodi Ffynhonnell' (Atodiad 1) a 'Sut i Gyfeirnodi Ffynhonnell' (Atodiad 2) wrth ddefnyddio adnoddau. |

© WJEC CBAC Ltd.2026

## Atodiad 1 – Pa bryd i Gyfeirnodi Ffynhonnell

Dylai athrawon gefnogi ymgeiswyr i ddefnyddio'r canllaw penderfyniadau canlynol wrth benderfynu sut i gyfeirnodi ffynhonnell. Gall ymgeiswyr ddefnyddio'r templed cyfeirnodi sydd wedi'i ddarparu yn 'Sut i Gyfeirnodi Ffynhonnell' (Atodiad 2) os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Hefyd, darparwyd enghraifft o dempled cyfeirnodi wedi'i gwblhau.

**Canllaw Penderfyniadau:**

**1. Ydych chi'n defnyddio ffynhonnell gwybodaeth yn eich gwaith?**

→ **Nac ydw** → ✅ Dim angen cyfeirnodi.
→ **Ydw** → Ewch i gam 2.

**2. Pa fath o ffynhonnell yw hon?**

🟩 **Llyfr / Erthygl** → Ewch i gam 3
🟦 **Gwefan** → Ewch i gam 4
🟧 **AI (e.e. ChatGPT)** → Ewch i gam 5
🟨 **Fideo / Podlediad / Cyfryngau eraill** → Ewch i gam 6
🟪 **Arolwg / Cyfweliad / Trafodaeth / Eich data eich hun** → Ewch i gam 7

### 🔍 Cam 3 – Llyfr / Erthygl

✅ Cyfeirnod: Awdur, teitl, dyddiad cyhoeddi, rhif(au) y dudalen
✅ Darparwch lungopi neu sgrinlun os bydd angen
📌 **Posibl ymddiried ynddynt?** Ydy, os ydyn nhw wedi'u cyhoeddi gan awdur/cyhoeddwr neu ffynhonnell hysbys
🖇️ Tystiolaeth: Cynhwyswch ddarn o erthygl/llyfr os bydd angen
➡️ WEDI'I WNEUD

### 🌐 Cam 4 – Gwefan

❓ Ydy hi'n **bosibl ymddiried yn y ffynhonnell**?
→ **Ydy e.e. GIG, GOV.UK, BBC)**
✅ Cyfeirnod: URL, cyhoeddwr/sefydliad, dyddiad cyrchu
🖇️ Tystiolaeth: Nodwch pam mae'n bosibl ymddiried ynddi (e.e. safle llywodraeth)

→ **Na / Ansicr**
🔍 Traws-wiriwch gydag o leiaf un **ffynhonnell ddibynadwy**
✅ Cyfeirnodwch bob gwefan a ddefnyddiwyd
🖇️ Tystiolaeth: Cymharwch ganfyddiadau; esboniwch sut gwnaethoch chi wirio
➡️ WEDI'I WNEUD

### 🤖 Cam 5 – Offer AI Cynhyrchiol (e.e. ChatGPT)

🛑 Peidiwch â chyflwyno cynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI fel eich gwaith ymchwil eich hun
✅ Cofnodwch bob ysgogiad a ddefnyddiwyd gennych a'r dyddiadau y gwnaethoch chi eu defnyddio
📌 Dylai AI gael ei drin fel ffynhonnell, nid fel gwybodaeth wreiddiol
🖇️ Cynhwyswch gopi o'r sgwrs AI yn eich atodiad (gweler Atodiad A)
✳️ Traws-wiriwch ffeithiau allweddol yn erbyn ffynonellau eraill mae modd ymddiried ynddynt

© WJEC CBAC Ltd.2026

🔍 Rhestrwch y ffynonellau a ddefnyddiwyd gennych i wirio'r cynnwys AI (e.e. gwefannau, llyfrau, erthyglau)
📝 Esboniwch sut defnyddioch chi'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI yn eich gwaith – dylech gynnwys hyn yn eich atodiad
➡️ WEDI'I WNEUD

🎥 **Cam 6** – Fideo / Podlediad / Arall

✅ Cyfeirnod: Creawdwr, teitl, llwyfan, URL, dyddiad cyhoeddi, dyddiad cyrchu
📎 Tystiolaeth: Sgrinlun teitl/tudalen a'ch **nodiadau/crynodeb chi eich hun**
📌 Nodwch yr ystod amser os yn dyfynnu
📌 Cadarnhewch hygrededd y ffynhonnell (e.e. sianel hysbys/corff proffesiynol?)
➡️ WEDI'I WNEUD

📃 **Cam 7** – Arolwg / Cyfweliad / Trafodaeth

✅ Nodi: pwy wnaeth gymryd rhan, pa bryd y cafodd ei wneud, am beth yr oedd yn sôn
📎 Tystiolaeth: Cynhwyswch grynodeb neu nodiadau mewn atodiad neu ffolder
📌 Dangoswch yn glir bod y data yn perthyn i chi neu'r tîm
📌 Parchwch anhysbysrwydd lle bo angen
➡️ WEDI'I WNEUD

✅ **Gwiriad Olaf**

- ✓ Ydy pob ffynhonnell a ddefnyddiwyd gennych wedi'i chyfeirnodi'n glir?
- ✓ Ydych chi wedi cadarnhau dibynadwyedd neu wedi gwirio gwybodaeth amheus?
- ✓ Ydych chi wedi cynnwys digon o dystiolaeth (e.e. atodiad, sgrinlun, crynodeb)?
- ✓ Os ydych chi wedi defnyddio AI, wnaethoch chi esbonio sut a heb awgrymu mai eich gwaith chi eich hun ydyw?

Cofiwch: dydych chi ddim am dreulio gormod o amser yn cyfeirnodi gwaith, ond mae angen i chi sicrhau eich bod wedi nodi'r gwaith a ddefnyddiwyd gennych yn glir a'ch bod yn gallu ymddiried ynddo. Mae hyn yn helpu i ddangos bod eich gwaith ymchwil yn ddilys, yn cyfrannu at gynnal uniondeb eich cymhwyster, ac yn sicrhau eich bod yn cael eich gwobrwyo am yr hyn rydych chi'n ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

© WJEC CBAC Ltd.2026

## Atodiad 2 – Sut i Gyfeirnodi Ffynhonnell

Sylwer mai canllaw yn unig yw'r tabl hwn. Os hoffai ymgeiswyr ddefnyddio fformat priodol arall i gyfeirnodi ymchwil, yna gellir gwneud hynny. Efallai yr hoffai ymgeiswyr gwblhau **Rhan A: Datganiad yr Ymgeisydd** yn rhan o'r Pecyn Ymgeiswyr. Dylid cyfeirio at bob agwedd berthnasol ar wybodaeth ffynhonnell wrth gyfeirnodi gwaith:

**Math o ffynhonnell:**

Llyfr, gwefan, offer AI cynhyrchiol, erthygl (cylchgrawn, papur newydd, dyddlyfr ac ati), fideo, arolwg, cyfweliad, trafodaeth, adnoddau cynllunio, neu arall (nodwch).

**Gwybodaeth am ffynonellau**:

- **Llyfr** – Teitl, awdur, dyddiad cyhoeddi, rhif y dudalen (rhifau'r tudalennau) a ddefnyddiwyd
- **Gwefan** – cyswllt tudalen we (URL), awdur (os yn hysbys), dyddiad cyrchu neu lawrlwytho
- **Erthygl** – Teitl, awdur, ffynhonnell, dyddiad cyhoeddi
- **Fideo** – Teitl, cyswllt tudalen we (URL), creawdwr neu sefydliad, dyddiad cynhyrchu neu ddyddiad cyrchu
- **Arolwg** – Nifer/math o ymatebwyr, dyddiad cynnal
- **Cyfweliad** – Enw'r unigolyn a gafodd ei gyfweld, rôl (os yn berthnasol), dyddiad y cyfweliad
- **Trafodaeth** – Enwau cyfranogwyr (os yn briodol), dyddiad y drafodaeth
- **Offeryn AI cynhyrchiol** – Enw'r bot AI a ddefnyddiwyd, yr union gwestiwn/ysgogiad a gyflwynwyd, ymateb AI llawn, dyddiad cynhyrchu, sut y gwiriwyd y wybodaeth a sut y defnyddiwyd y wybodaeth hon – mae AI wedi dod yn offeryn defnyddiol wrth addysgu a dysgu, ond mae gofyn o hyd i ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau eu hunain o fewn yr Asesiad Di-arholiad. Mae'n rhaid atgoffa ymgeiswyr y dylai gwaith a gyflwynir i'w asesu fod wedi'i ysgrifennu yn eu geiriau nhw eu hunain. Ni ddylai fod wedi'i gopïo na'i aralleirio o ffynhonnell arall megis offeryn AI, a rhaid iddo adlewyrchu eu gwaith annibynnol nhw eu hunain.
- **Arall** – Nodi'r math o ffynhonnell a chynnwys cymaint o wybodaeth adnabod â phosibl (teitl, creawdwr, dyddiad, cyswllt, ac ati.)

**Gwirio**

Lle bo'n briodol, yn yr adran hon dylai'r ymgeisydd gynnwys disgrifiad byr o'r camau a gymerwyd i wirio'r ffynhonnell. Er enghraifft: sicrhau eu bod yn defnyddio gwefan y gellir ymddiried ynddi, cymharu'r wybodaeth â ffynhonnell arall, a gwirio nad oes tuedd mewn gwybodaeth neu nad yw'n camarwain. (Lle mae hyn yn rhan o dasg, dim ond disgrifio'r broses y mae angen i'r ymgeisydd ei wneud).

© WJEC CBAC Ltd.2026

Templed cyfeirnodi

| **Math o ffynhonnell** | **Gwybodaeth am ffynonellau** | **Gwirio/tystiolaeth lle bo'n briodol** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Templed cyfeirnodi wedi'i gwblhau

| **Math o ffynhonnell** | **Gwybodaeth am ffynonellau** | **Gwirio/tystiolaeth lle bo'n briodol** |
|---|---|---|
| Llyfr | The History of the Tudors, gan Alison Weir, cyhoeddwyd 2006, tud. 122–125 | Amh. |
| Gwefan | https://www.nhs.uk/live-well/healthy-weight/food-and-diet/, GIG, cyrchwyd ar 20 Mehefin 2025 (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | Gwefan Llywodraeth mae'n bosibl ymddiried ynddi |
| Gwefan | *https://worldtruthnow.biz/aliens-built-pyramids*, awdur anhysbys, cyrchwyd 20 Mehefin 2025 – awdur anhysbys, cyrchwyd 20 Mehefin 2025 | Wedi cymharu gwybodaeth â *https://www.britishmuseum.org/egypt-pyramids* Amgueddfa Prydain, cyrchwyd ar yr un dyddiad. |
| Erthygl | *Global Warming and the Arctic*, gan Fiona Davies, *National Geographic Magazine*, cyhoeddwyd Mawrth 2022 (Daearyddiaeth) | Llungopi o erthygl gyda theitl, awdur a dyddiad i'w gweld; dyfyniad wedi'i restru yn yr adran cyfeirnodi |
| Fideo | SkillsYouNeed (sianel), "Customer Service Skills Training," YouTube, cyhoeddwyd 15 Mawrth 2020, https://www.youtube.com/watch?v=7wQKXXWcI7A, cyrchwyd 26 Mehefin 2025, gwybodaeth wedi'i thrawsgrifio o 02:15–03:05 | Sianel addysgiadol mae'n bosibl ymddiried ynddi; mae'r cynnwys yn cyfateb i egwyddorion hyfforddi safonol sy'n ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid. Gwybodaeth wedi'i thrawsgrifio |
| Arolwg | Arolwg o 30 ymgeisydd Blwyddyn 11 yn Ysgol *** ar arferion cyfryngau cymdeithasol, wedi'i gynnal ar 18 Mai 2025 | Tystiolaeth wedi'i chanfod yn [yr ymgeisydd i gyfeirnodi ble mae'r dystiolaeth i'w chael] |
| Cyfweliad | Cyfweliad gyda Mr Huw Thomas, Entrepreneur Lleol, wedi'i gynnal ar 10 Mehefin 2025 | Crynodeb o nodiadau [yr ymgeiswyr i gyfeirnodi lle mae'r dystiolaeth i'w chael] |

© WJEC CBAC Ltd.2026

| | | |
|---|---|---|
| Trafodaeth | Trafodaeth grŵp ar gyfyng-gyngor moesegol mewn plismona (cyfranogwyr: Jayden R., Amina T., Carys L.), cynhaliwyd ar 12 Mehefin 2025. | Nodiadau ysgrifenedig, i'w cael yn y ffolder digidol fel "EthicsDiscussion_PublicServices_Group3_12June2025 |
| AI | ChatGPT, ysgogiad: 'Beth yw'r prif dueddiadau o ran twristiaeth gynaliadwy yn y DU ac yn fyd-eang?', cynhyrchwyd ar 22 Mehefin 2025<br><br>ChatGPT, ysgogiad: 'Allai hyn ymwneud â Chymru hefyd', cynhyrchwyd ar 22 Mehefin 2025 | Tystiolaeth: Gweler Atodiad A am gopi o'r sgwrs<br><br>Cafodd y wybodaeth a gynhyrchwyd gan ChatGPT ei gymharu â chynnwys o https://eryri.gov.wales/visit/plan-your-visit/guides/how-to-visit-eryri-without-a-car/ a https://www.greentraveller.co.uk/post/car-free-guide-brecon-beacons-national-park<br><br>Disgrifiad o sut wnes i ddefnyddio gwybodaeth gafodd ei chanfod ar AI<br>Atodiad A |
| Arall (e.e. podlediad) | Podlediad: *Careers in Game Design*, Pennod 4 *Future Creators*, wedi'i letya gan Creative Wales, ar gael yn https://www.futurecreatorspodcast.com/ep4, ar gael o 5 Mai 2025 | Sgrinlun o dudalen podlediad, crynodeb o bwyntiau perthnasol yng ngeiriau'r ymgeisydd, i'w cael yn y ffolder digidol "podcast_Future_Creators_5May25_ |

© WJEC CBAC Ltd.2026

Atodiad 3 – Mae'r atodiad hwn yn dangos enghraifft o sut gallai ymgeisydd ddefnyddio sgwrsfot AI i gasglu gwybodaeth gychwynnol ac yna i ddefnyddio gwrthgwestiwn i fireinio'r wybodaeth a gwneud y wybodaeth yn fwy penodol. Mae'n dangos hefyd sut y gallen nhw wirio manwl gywirdeb yr ymateb a sut y gallen nhw ddefnyddio'r wybodaeth.

**Appendix A**

AI - ChatGPT, prompt: "What are the main trends in sustainable tourism in the UK and globally?", generated on 22 June 2025

**Global Trends**

1. **Eco-Conscious Travel** Travellers are choosing destinations that minimise harm to the environment—like eco-lodges, plastic-free tours, and nature conservation holidays.
2. **Community-Focused Tourism** There's growing interest in travel that benefits local people directly, including supporting local businesses and cultural experiences that respect and preserve traditions.
3. **Slow and Low-Carbon Travel** Tourists are favouring slower, more meaningful travel—like train travel over flying, or extended stays that reduce the carbon footprint of frequent short trips.
4. **Sustainable Certifications** Global travellers are increasingly looking for eco-labels like **Earth Check**, **Green Tourism**, or **Travel Ife** when booking accommodation and activities.
5. **Regenerative Travel** Moving beyond just minimising harm, some travellers want to positively impact the places they visit—for example, by helping restore natural habitats or supporting conservation work.

GB **UK-Wide Trends**

1. **Staycations and Nature Tourism** The popularity of holidays within the UK remains strong, with many people choosing national parks, coastal walks, or rural retreats to reduce emissions and reconnect with nature.
2. **Sustainable Transport Initiatives** Greater investment in electric vehicle charging points, bike hire schemes, and improved public transport options makes sustainable travel more accessible.
3. **Eco-Friendly Accommodation** More hotels, B&Bs, and campsites across the UK are offering low-carbon options such as solar-powered heating, water-saving measures, and local food sourcing.
4. **Sustainability in Events and Attractions** Attractions and events are adopting greener practices—like reducing waste, promoting reusable items, and offering sustainability education as part of the visitor experience.

AI - ChatGPT, prompt: "Could you make this about Wales too" generated on 22 June 2025

**Wales-Specific Trends**

1. **Promotion of Sustainable Destinations** Visit Wales is actively promoting lesser-known areas to reduce over-tourism in popular locations and encourage economic benefits in rural communities.
2. **Welsh Language and Culture** Sustainable tourism in Wales often includes promoting and protecting Welsh language, culture, and identity—giving visitors meaningful local experiences while supporting communities.
3. **National Parks and Trails** Wales' three national parks (Snowdonia/Eryri, Brecon Beacons/Bannau Brycheiniog, and Pembrokeshire Coast) are leading examples of sustainable tourism with car-free zones, green transport, and conservation efforts.
4. **Adventure and Eco-Tourism** Wales is a top UK destination for sustainable adventure tourism, including walking, cycling, and wildlife experiences that protect the environment while boosting the local economy.
5. **Sustainability Charter and Green Pledges** Welsh tourism businesses are encouraged to sign up to sustainability charters (e.g. the Green Key scheme or Wales' Sustainable Tourism Charter) to show their commitment to ethical and responsible tourism.

O ran **pwynt 3 yr ail ymateb AI** - ymchwiliais yn fanylach i hyn gan ddefnyddio gwefannau Eryri a Bannau Brycheiniog gan ddarganfod bod y ddwy wefan yn hyrwyddo ffyrdd o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i'r parciau. Er mwyn asesu pa mor llwyddiannus yw'r wybodaeth hon, byddaf yn cynnal arolwg i weld faint o bobl sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o gymharu â theithio mewn car yn seiliedig ar y wybodaeth hon.

© WJEC CBAC Ltd.2026